# Adroddiad Arolygu

**Kiddies Corner - Bangor**

**Meithrinfa Menai**
**Ffordd Gelli Morgan, Parc Menai**
**Bangor**
**LL57 4BL**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

15/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Kiddies Corner - Bangor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br><br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Kiddies Corner Day Nursery Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â Llaw] Arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig ac yn mwynhau gwneud dewisiadau am yr hyn y maent am chwarae ag ef. Gwrandewir ar syniadau a diddordebau'r plant ac mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dda. Mae'r plant yn hapus, yn ymddiddori ac yn brysur yn eu chwarae. Mae'r plant yn ymdopi'n dda ag ymwahaniad oddi wrth eu rhieni. Mae arferion cyson yn cefnogi eu hanghenion unigol. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda ac yn symud o gwmpas yr amgylchedd yn rhydd gan ddewis o'r gweithgareddau sydd ar gael a chyrchu'r teganau y maent am chwarae â nhw.

Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach. Maent yn ddigynnwrf, yn rheoli rhyngweithio'n dda ac yn cefnogi'r plant i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae'r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. Maent yn gwrando ar yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud ac yn ymateb yn briodol. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael amser a chefnogaeth i fynegi eu hunain. Trefnir gweithgareddau ac mae'r staff yn darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau ac annibyniaeth y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac wedi'i drefnu i feysydd dysgu. Gall y plant symud yn rhydd o fewn y gofod. Mae'r rhan fwyaf o deganau ac offer yn cael eu storio ar uchder plant fel y gallant helpu eu hunain a chwarae'n annibynnol. Mae ardaloedd chwarae a dysgu wedi'u gosod allan yn ddeniadol ac mae amrywiaeth o adnoddau a theganau sy'n addas i'r oedran.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad dîm o staff sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Maent yn cefnogi ei gilydd i ddarparu chwarae a gofal effeithiol i'r plant. Mae perthynas waith dda â'r rhieni. Mae digon o amser i siarad â'r staff am eu plant a sut maent yn datblygu yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn ddwyieithog a defnyddir y Gymraeg yn gyson gyda'r plant.

## Llesiant **Da**

Mae'r plant yn hapus ac yn brysur. Gwrandewir arnynt ac maent yn cyfathrebu eu hanghenion a'u dymuniadau'n hyderus. Mae ganddynt ddewisiadau ac maent yn ymwneud â dewis ble i chwarae a lle i eistedd am ginio. Rhoddir amser i'r plant siarad am bethau sydd o ddiddordeb iddynt fel yr asynnod yn y cae gerllaw. Maent yn symud o gwmpas yr amgylchedd yn rhydd, gan ddewis o'r gweithgareddau sydd ar gael a chael mynediad at yr eitemau y maent am chwarae â nhw.

Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch iddynt. Er enghraifft, atgoffodd plentyn y staff nad oeddent wedi ymolchi eu dwylo ar ôl dychwelyd o daith gerdded. Maen nhw'n mynd at y staff i gael sicrwydd ac yn eistedd yn hapus ar eu pen-glin i gael cofleidiad neu i gael sicrwydd cyn dychwelyd i chwarae gyda'u ffrindiau. Mae'r plant yn gwahanu'n dda oddi wrth eu rhieni ac mae ganddynt berthynas dda â'r staff.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu cydweithio â'i gilydd. Maent yn dod ymlaen â'i gilydd fel un teulu mawr, hapus, er enghraifft wrth eistedd gyda'i gilydd o amgylch bwrdd yn cymysgu lliwiau i mewn i does. Maen nhw'n gwneud lle ar y llawr i'w ffrindiau eistedd wrth eu hymyl. Maent yn rhannu adnoddau ac yn cyd-chwarae'n dda gan gymryd diddordeb yn yr hyn y mae eu ffrindiau'n ei wneud. Daeth rhai o'r plant i sgwrsio â ni am yr hyn yr oeddent yn hoffi ei wneud ac roeddent yn hapus i siarad am eu teulu a'u ffrindiau, a sut maent yn hoffi dod i'r lleoliad.

Mae gan y plant ddigonedd o weithgareddau i ddewis ohonynt ac maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau'r adnoddau y maent wedi'u dewis ac yn dewis chwarae ar eu pen eu hunain neu gyda'r plant eraill. Roedd rhai o'r plant yn sgwrsio am yr hyn roedden nhw'n ei wneud ac yn chwilfrydig i wybod beth oedden ni'n ei wneud hefyd. Roeddent yn awyddus i ddweud wrthym am eu taith gerdded a'r pethau a welsant tra oeddent allan. Roedd eraill yn hapus i ychwanegu sylwadau a darnau ychwanegol at y stori, gan ddangos cymeradwyaeth, gyda phawb yn penderfynu eu bod wedi cael amser hyfryd gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn gallu datblygu sgiliau annibyniaeth, er enghraifft, gallant fynd i'r ystafelloedd ymolchi ac ymolchi eu dwylo. Mae rhai yn ceisio torri eu bwyd eu hunain amser cinio. Maent yn datblygu sgiliau yn eu hardal awyr agored. Mae bron pob un o’r plant yn siarad Cymraeg yn rhugl, a chânt ddigon o gyfleoedd yn ystod y dydd i ddatblygu eu hiaith.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'r trefniadau a'r gweithdrefnau maent yn eu dilyn yn effeithiol, megis golchi dwylo wrth ddod i mewn o'r tu allan neu cyn bwyta. Mae'r staff yn darparu dewisiadau byrbrydau maethlon, gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae gan y staff yr hyfforddiant diweddaraf a gwybodaeth am beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon am blentyn. Maent wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n eu galluogi i ymdrin ag unrhyw fân ddigwyddiadau yn briodol. Mae'r staff yn sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal, fel eu bod nhw a'r plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant gael mynediad i'r awyr agored, a'r ardal leol sy'n rhoi cyfleoedd iddynt gael awyr iach a bod yn egnïol.

Mae'r staff yn dawel ac yn garedig ac yn rheoli rhyngweithio'n dda ac yn cefnogi'r plant i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt, megis peidio â rhedeg yn yr ystafell chwarae. Maent yn gwrando ar yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud ac yn ymateb yn dda, gan sicrhau bod y plant yn cael amser a chymorth i fynegi eu hunain, yn enwedig y rhai sydd â sgiliau cyfathrebu cyfyngedig. Mae'r staff yn ymwneud â chwarae a dysgu'r plant pan fydd y plant yn eu gwahodd i wneud hynny. Maen nhw'n eistedd ar y garthen wrth eu hymyl i sgwrsio am eu hadeiladwaith, gan roi help llaw pan nad yw'n gweithio. Mae'r staff yn defnyddio hiwmor da yn effeithiol ac yn fuan maent i gyd yn chwerthin.

Mae'r staff yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda ac yn defnyddio eu harsylwadau a chynnydd y plant i gynllunio rhai gweithgareddau addas, fodd bynnag nid yw hyn yn gyson a defnyddir gormod o dempledi yn hytrach na syniadau creadigol y plant eu hunain. Eglurodd y staff eu bod wedi dilyn cwrs yn ddiweddar i adolygu'r cynllunio i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd. O ganlyniad, mae cynllunio ac asesu newydd yn cael eu datblygu. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn dysgu am y byd o'u cwmpas trwy fynd am dro byr yn yr ardal leol ac edrych ar natur fel adar a gwiwerod o amgylch eu meithrinfa.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall y plant chwarae a dysgu'n gadarnhaol. Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal fel sy'n briodol, gan nodi'r peryglon posibl i'r plant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae gan y rhain ddyddiadau adolygu rheolaidd ond mae angen eu diweddaru i adlewyrchu'n gywir y ffordd y mae'r lleoliad yn rhedeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu gweithgareddau. Mae arferion glanhau ac arferion hylendid yn dilyn y canllawiau cyfredol, ac maent yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb.

Mae'r lleoliad wedi'i leoli mewn coetir hyfryd ac mae cynllun yr ardaloedd chwarae yn hybu annibyniaeth y plant. Trefnir gweithgareddau i alluogi'r plant i archwilio'n rhydd a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae digonedd o deganau ac adnoddau addas ar gyfer yr oedrannau y gofelir amdanynt. Mae'r ddwy ystafell chwarae yn olau ac yn lliwgar. Er bod rhai o grefftau'r plant yn cael eu harddangos, templedi a siapiau wedi'u llunio ymlaen llaw yw'r rhain yn hytrach na syniadau creadigol y plant eu hunain, gan roi ymdeimlad o berthyn a chyflawniad iddynt. Y tu allan mae digon o le gyda gwahanol arwynebau a gweithgareddau i'r plant eu mwynhau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn codi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas i ddysgu am eu cymdeithas ehangach. Mae cyfleoedd da i'r plant ymarfer defnyddio eu synhwyrau trwy fod yn yr awyr agored a gofalu am eu gardd. Mae'r rhan fwyaf o deganau ac offer yn cael eu storio ar uchder plant fel y gallant helpu eu hunain a chwarae'n annibynnol. Mae’r adnoddau o ansawdd da ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae ystod o adnoddau naturiol sy’n gwella profiadau chwarae a chwilfrydedd y plant. Mae'r rhain yn cynnwys moch coed a bwydwyr adar, yn ogystal ag adnoddau o waith dyn sy'n galluogi plant i fwynhau a defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith ac yn cael eu diweddaru fel eu bod yn adlewyrchu’r arfer cyfredol. Mae'r datganiad o ddiben yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni i wneud penderfyniad am ofal eu plentyn.

Mae system effeithiol i werthuso'r lleoliad a'r gofal a ddarperir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn casglu safbwyntiau ac adborth fel rhan o'u gwerthusiad. Maent yn adolygu ac yn gwneud cynlluniau ar gyfer newidiadau a gwelliannau a fydd yn fuddiol i'r plant. Er enghraifft, maent yn awyddus i ymestyn yr ardal awyr agored, gan drawsnewid rhan ohoni yn ysgol goedwig, a fydd yn darparu profiadau dysgu ychwanegol i’r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau sy'n golygu bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth. Mae bron pob un o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers blynyddoedd lawer, sy'n dangos eu bod yn hapus. Maent yn dweud bod y rheolwyr yn hawdd siarad â nhw, bod ganddyn nhw gefnogaeth dda a bod awyrgylch hamddenol a chyfeillgar. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd a chyfathrebir yr wybodaeth yn briodol i'r lleoliadau eraill a'r unigolyn cyfrifol.

Mae perthynas waith dda â'r rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y rhieni'n cael eu hysbysu ar lafar a thrwy ap am gynnydd eu plentyn, unrhyw wybodaeth newydd neu i ddarganfod beth mae eu plentyn wedi bod yn ei wneud. Mae'r rhieni’n rhannu gwybodaeth berthnasol yn ysgrifenedig ac ar lafar â'r staff cyn i'w plentyn ddechrau fel y gall y staff ddarparu'r gofal sydd ei angen ar bob plentyn. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a thrwy drafodaethau hamddenol ar ddechrau a diwedd y sesiwn ac mae'r staff yn ymwybodol o anghenion newidiol a bywyd teuluol y plant a'r ffordd orau o'u cefnogi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ofal y plant.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Parhau i ddatblygu cynllunio ac arsylwadau yn unol â'r cwricwlwm newydd.

A2 Cyfyngu ar y defnydd o dempledi a siapiau wedi'u llunio ymlaen llaw.

A3 Diweddaru'r asesiadau risg i adlewyrchu'r ffordd y mae'r lleoliad yn rhedeg.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 01/11/2022